

Cyfeirnod(au) y Papur

**6953/01**

# **Edexcel GCE**

## **Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu Gymhwysol**

**Uned 3: Y Gweithiwr Gwybodaeth**

**Mai 2009**

**Senario**

Agorwch y deunydd hwn ar unwaith. Dylai gael ei ddosbarthu i ymgeiswyr o leiaf dair wythnos waith cyn yr arholiad.

Ffeiliau ymarfer: DVR\_exam.xls  
Survey\_exam.txt

Caiff y disgrifiad drosodd ei ddefnyddio fel senario ar gyfer y fanyleb uchod, a chaiff ei ailddosbarthu gyda'r papur arholiad. Dylai'r senario hwn gael ei ddefnyddio at ddiben paratoi ymgeiswyr ar gyfer yr arholiad. Ni chaniateir mynd â'r deunydd hwn i mewn i'r arholiad.

Mae mwy o fanylion i'w cael yn y Cyfarwyddiadau ar gyfer Cynnal Arholiadau, sydd ar gael o wefan Edexcel ar gyfer y cymhwyster a'r pwnc hwn.

**Ni fydd Edexcel yn derbyn unrhyw gais am ystyriaeth arbennig os rhoddir y senario anghywir i ymgeiswyr ar gyfer yr arholiad y maent yn ei sefyll.**

Rhif Log yr Argraffwr

**N36590A**





N 3 6 5 9 0 A

W850/R6953/57570 1/

Gellir atgynhyrchu'r cyhoeddiad hwn yn unol â pholisi hawlfraint Edexcel Limited yn unig. ©2008 Edexcel Limited.


*Trowch y dudalen*

**edexcel**   
advancing learning, changing lives




cyfiawnhau cadw'r gorsafodd ar y leiniau hynny ar agor.

Yn ystod y 1960au roedd y llywodraeth yn berchen ar rwydwaith gyfan y rheilffordd. Y pryd hwnnw, gwelwyd symud ymhlith teithwyr a nwyddau oddi ar y rheilffordd ac i'r ffordd fawr, gan wneud rhai o'r llwybrau trenau yn amhroffidiol (*unprofitable*). O ganlyniad, caewyd nifer fawr o leiniau'r rheilffordd. Y rhai a gafodd eu cau yn bennaf oedd leiniau cangen drwy ardaloedd gwledig lle nad oedd nifer y teithwyr yn gallu




i'w gweld yn yr ardal. Agorwyd y lein gyntaf ym 1974 a'r enw ar hon oedd lein y Genhinen Bedr. Sicrhaodd nifer fawr o wirfoddolwyr fod y trac yn gweithio'n dda, roeddent yn gyrru'r trenau, yn gwerthu tocynnau ac yn cynnal a chadw adeiladau'r orsaf. Erbyn 1979 roedd dwy lein arall, leiniau'r Tiwlip a'r Croeso Haf (*Hyacinth*), wedi agor. Mae Rheilffordd Dyffryn y Ceirw wedi cael ei rhedeg fel atyniad llwyddiannus iawn i dwristiaid byth ers hynny.

Prynwyd nifer o'r leiniau hyn, nad oeddent yn cael eu defnyddio, gan grwpiau o bobl â diddordeb mewn trenau stêm a gwnaethon nhw adnewyddu'r leiniau. Gwnaethon nhw brynu ac adnewyddu hen injans stêm a cherbydau teithwyr gan redeg y leiniau fel atyniadau i dwristiaid. Mae un o'r leiniau hyn yn rhedeg drwy gefn gwlad Surrey ac fe'i gelwir yn "Rheilffordd Dyffryn y Ceirw" oherwydd nifer y ceirw sydd




*Valley Railway Company - DVRC*) ac mae gweithwyr parhaol bellach yn rhedeg y rheilffordd ar sail fasnachol.

Yn ddiweddar mae nifer o ddatblygiadau mawr o dai wedi cael eu hadeiladu ar hyd lein y Genhinen Bedr. Mae llawer o drigolion yn y datblygiadau wedi manteisio ar lein y Genhinen Bedr gan ei bod yn cysylltu â gwasanaeth prif lein i Lundain o Broughton Park. Y teimlad oedd na fyddai tîm o wirfoddolwyr yn gallu ymdopi â'r cynnydd yn nifer y teithwyr, dim ots pa mor ymroddgar yr oeddent. O ganlyniad, sefydlwyd "Cwmni Rheilffordd Dyffryn y Ceirw" (*Deer*




Broughton Park yn ystod cyfnod brig y bore. Enwau'r injans yw Duke of Wessex, Arrabella, Marquis of Granby, Charles Darwin, Delta, Caledonian Spirit a Lakeland Heights.

Mae'r cwmni yn gwneud elw da, yn bennaf ar sail y traffig cymudwyr (*commuters*) ar lein y Genhinen Bedr. Mae'n rhaid i'r cwmni redeg saith o'i naw trên ar y lein hon yn ystod yr oriau brig i ymdopi â'r traffig hwn. Mae'r saith trên hyn yn cael eu cadw yn y siediau injans yn Southwick dros nos. Trefnir bod pob un o'r rhain yn mynd i



Mae'r cwmni wedi dod ar draws nifer o broblemau gyda'r amserlen gyfredol yng nghyfnod brig y bore. Mae rhai o'r trenau'n orlawn ond mae eraill bron yn wag. Mae'r cwmni wedi'ch cyflogi chi i roi cyngor am amserlen newydd yng nghyfnod brig y bore ac mae wedi darparu model wedi'i gwblhau'n rhannol i'ch helpu chi.



Mae cyfnod brig y bore rhwng 6 o'r gloch a 9 o'r gloch. Yn ystod y cyfnod hwn bydd pob trê'n yn rhedeg unwaith o Southwick i Broughton Park, gan alw ym mhob gorsaf ar hyd y ffordd. Mae'r trenau wedi cael eu hamseru rhwng pob gorsaf dros y tri mis diwethaf.

Mae'r tabl yn dangos enwau'r gorsafoedd a'r amser cyfartalog y mae trê'n wedi'i gymryd i deithio rhwng gorsafoedd.

Gorsaf	Yr amser cyfartalog o'r orsaf flaenorol (fformat <i>hh:mm</i> )
Southwick	Dim gorsaf flaenorol
Prestwell	00:10
Lower Marsden	00:20
Rottlesfield	00:10
Broughton Park	00:20

Mae'r cwmni wedi ymgymryd ag arolwg er mwyn rhoi data i'ch helpu chi. Bob bore am wythnos, rhwng 5 a.m. a 9 a.m., gofynnodd tîm o weithwyr dri chwestiwn i **bob** teithiwr a oedd yn defnyddio lein y Genhinen Bedr.

I ba orsaf rydych chi'n teithio?

O ba orsaf rydych chi wedi teithio?

Faint o'r gloch y mae'n rhaid i chi gyrraedd gorsaf eich cyrchfan (*destination*)?



(Gwaith Celf Michelle Goates 2008)

## Disgrifiad o'r model

Bydd y model sydd wedi'i gwblhau'n rhannol yn caniatáu i chi arbrofi gydag amserau trên gwahanol a bydd yn eich helpu chi i ddarparu amserlen sy'n cael gwared â gorlenwi ar y trenau.

Taflen waith	Disgrifiad
<i>Timetable</i>	Mae'r daflen waith ' <i>timetable</i> ' yn caniatáu i chi osod amserau'r trenau. Caiff pob trê'n ei restru a dylid eu hamserlennu yn y drefn y maent yn ymddangos ar y rhestr. Mae blwch cwympo ( <i>dropdown box</i> ) yn caniatáu i chi ddewis yr amser y mae pob trê'n yn gadael Southwick. Mae gweddill yr amserau yn cael eu cyfrifo trwy ychwanegu'r amser cyfartalog o'r orsaf flaenorol at yr amser y gwnaeth y trê'n gyrraedd yr orsaf flaenorol. Gall trenau adael Southwick am 0, 10, 20, 30, 40 a 50 munud wedi'r awr.
<i>Survey Data</i>	Bydd y daflen waith ' <i>survey data</i> ' yn cynnwys canlyniadau'r arolwg a bydd yn cael ei defnyddio i ragfynegi nifer y teithwyr sy'n teithio ar bob un o'ch trenau ar unrhyw amser penodol.
<i>Timings</i>	Mae'r daflen waith hon yn cynnwys matrices sy'n cyfrifo faint o amser y mae'n ei gymryd i deithio rhwng pob gorsaf. Caiff ei defnyddio i gyfrifo yr amser hwyraf y mae angen i deithiwr penodol fod yn yr orsaf.
<i>Passengers</i>	Mae'r daflen waith hon yn bwysig gan mai dyma lle mae nifer y teithwyr ar bob trê'n ar unrhyw amser penodol yn cael ei gyfrifo.
<i>Station Worksheets</i>	Mae'r rhain yn daflenni gwaith interim, un ar gyfer pob gorsaf, sy'n cael eu defnyddio i helpu cyfrifo nifer y teithwyr ar bob trê'n ar amser penodol.

**Mae rhai celloedd yn y model wedi'u hamddiffyn gan gyfrinair. Os ydych yn dymuno arbrofi â'r model, y cyfrinair yw *edexcel*. Byddwch yn ymwybodol os ydych yn newid cynnwys unrhyw gell sydd wedi'i hamddiffyn ei bod yn bosibl na fydd y model yn gweithio.**